# Bridio manwl

Beth yw bridio manwl, a'r ffyrdd posib o'i ddefnyddio.

## Beth yw bridio manwl?

Mae bridio manwl yn ffordd o newid DNA planhigion neu anifeiliaid mewn ffordd fanwl gywir, gan ddefnyddio technegau fel golygu genynnau (gene-editing). Mae golygu genynnau yn defnyddio ensymau arbenigol i dorri DNA mewn mannau penodol. Rhaid i'r newidiadau hyn fod yn rhai y gellid bod wedi'u gwneud trwy ddefnyddio dulliau traddodiadol ar gyfer bridio planhigion neu anifeiliaid.

O'r herwydd, mae bridio manwl yn wahanol i addasu genetig (genetic modification). Addasu genetig yw pan fydd genynnau o un rhywogaeth o blanhigyn neu anifail yn cael eu mewnosod i rywogaeth arall nad yw'n gysylltiedig mewn ffordd nad fyddai'n bosib trwy ddulliau bridio traddodiadol.

Mae nifer o ffyrdd ymarferol o ddefnyddio bridio manwl ar gyfer cynhyrchu bwyd, trwy gyflwyno nodweddion dymunol mewn cnydau a da byw a allai gymryd blynyddoedd lawer i'w datblygu fel arall. Gallai hyn gynnwys gwella cynnwys maethol planhigion, neu wella gallu cnydau i wrthsefyll afiechydon.

## Cynhyrchion a ddatblygir trwy fridio manwl yn y DU

Ar hyn o bryd nid oes unrhyw gnydau nac anifeiliaid sy'n deillio o dechnolegau bridio manwl wedi'u hawdurdodi i'w gwerthu fel bwyd neu fwyd anifeiliaid yn y DU.

Daeth y Ddeddf Bridio Manwl yn gyfraith yn Lloegr ym mis Mawrth 2023. Deddf sy'n gymwys i Loegr yn unig yw hon, sy'n golygu ei bod wedi darparu categori newydd ar gyfer organebau wedi'u bridio'n fanwl i'w hawdurdodi yn Lloegr. Yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon, bydd yr organebau hyn yn parhau i gael eu dosbarthu fel organebau a addaswyd yn enetig.

Mae'r Ddeddf hefyd yn creu pwerau i weinidogion nodi sut y dylid rheoleiddio planhigion ac anifeiliaid wedi'u bridio'n fanwl i'w defnyddio mewn bwyd a bwyd anifeiliaid yn Lloegr.

## Ein rôl ni

O ganlyniad i'r newid hwn mewn deddfwriaeth, mae'r ASB yn datblygu fframwaith awdurdodi newydd i reoleiddio'r defnydd o organebau wedi'u bridio'n fanwl mewn cynhyrchion bwyd a bwyd anifeiliaid yn Lloegr.

Bydd y fframwaith hwn yn ystyried unrhyw risg y mae'r organebau hyn yn ei pheri fesul achos, a bydd yn sicrhau bod yr holl risgiau diogelwch bwyd cysylltiedig yn cael eu hasesu, eu rheoli'n gymesur a'u cyflwyno i weinidogion er mwyn llywio eu penderfyniad ynghylch a yw'r organeb yn ddiogel i gael ei farchnata i'w ddefnyddio mewn bwyd a bwyd anifeiliaid.

Mae hyn yn golygu y gallwn fod yn hyderus y bydd yr holl organebau wedi'u bridio'n fanwl yn ddiogel i bobl eu bwyta.

Bydd cynhyrchion wedi'u bridio'n fanwl yn cael eu hawdurdodi dim ond os bernir:

- nad ydynt yn peryglu iechyd
- nad ydynt yn camarwain defnyddwyr
- nad oes ganddynt werth maethol is na'r bwydydd cyfatebol sydd wedi'u bridio'n draddodiadol

## Beth fydd yn digwydd nesaf

Rydym wedi lansio ymgynghoriad cyhoeddus ar gynigion am fframwaith newydd yn Lloegr ar gyfer rheoleiddio organebau wedi'u bridio'n fanwl a ddefnyddir mewn bwyd a bwyd anifeiliaid ym mis Tachwedd 2023. Mae angen cyflwyno ymatebion erbyn 8 Ionawr 2024.

### Cymru

Mae'r Bil yn gymwys i Loegr yn unig.  Fodd bynnag, o dan Ddeddf Marchnad Fewnol y DU 2020 (UKIMA), caiff bwyd/bwyd anifeiliaid sy'n cynnwys Organebau wedi'u Bridio'n Fanwl a'u hawdurdodi yn Lloegr eu gwerthu yng Nghymru. Nid yw UKIMA yn gymwys i brosesu ar ôl gwerthu. Byddai unrhyw fwyd/bwyd anifeiliaid wedi'i bridio'n fanwl a werthir yng Nghymru o dan egwyddorion mynediad i'r farchnad UKIMA, pe bai'n cael eu prosesu ymhellach yno, yn ddarostyngedig i ddeddfwriaeth sy'n rheoleiddio Organebau a Addaswyd yn Enetig (GMOs).